**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Alun Davies AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
Pumed llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

8 Hydref 2013

Annwyl Alun

**CLA288 - Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013**

Trafododd y Pwyllgor yr Offeryn Statudol uchod yn ei gyfarfod ar 23 Medi 2013. Mae copi o'n hadroddiad ar y rheoliadau wedi'i atodi er gwybodaeth.

Fel y byddwch yn gwybod, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar offerynnau nas gwneir yn Gymraeg a Saesneg yn unol â Rheol Sefydlog 21.2(ix). Yn flaenorol, cafodd y Pwyllgor addewid y bydd cyfieithiad Cymraeg o offerynnau a wneir ar y cyd gyda Senedd y DU, lle bo hynny'n bosibl, yn cael ei ddarparu.

Mae'r Pwyllgor yn hynod siomedig nad yw'r rheoliadau hyn ar gael yn Gymraeg. Maent yn hynod bwysig a pherthnasol i gymunedau Cymraeg eu hiaith a credwn y dylid bod wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y rheoliadau ar gael yn Gymraeg hefyd.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir

**David Melding AC**
**Cadeirydd**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8008
E-bost / Email: Gareth.willaims@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh